

Rhesymu'n Rhifiadol

Dyma adnodd rhyngweithiol ar-lein, sy'n datblygu gallu disgyblion 11-14 oed a disgyblion 14-16 oed i resymu'n rhifiadol yn eu bywydau pob dydd. Mae'r adnodd yn un HTML5 aml-blatfform fel bod modd i ddefnyddwyr allu ei defnyddio ar bob math o system gyfrifiadurol / dyfais sydd gyda phorwr modern.

Wrth lansio'r adnodd, bydd y defnyddiwr yn cyrraedd tudalen flaen, ble ceir pum prif ddewis:

1. Cyllid
2. Trafnidiaeth
3. Cartref
4. Amgylchedd
5. Hamdden



Ar ôl dewis un o'r 5 maes, bydd y defnyddiwr yn cyrraedd tudalen ble fydd rhestr o'r 50 cwestiwn sydd o fewn y maes yma, gyda chwestiynau 1-25 i ddisgyblion 11-14 oed a chwestiynau 26-50 i ddisgyblion 14-16 oed ym mhob adran. Bydd y cwestiynau yma yn dilyn manylebau TGAU sylfaenol, canolradd ac uwch CBAC.



Tudalennau Cwestiynau

Ar ôl dewis cwestiwn, mi fydd y defnyddiwr yn cyrraedd y cwestiwn.

Mae pum opsiwn o fewn pob cwestiwn a gallir ei dewis drwy ddefnyddio'r tabs wedi ei labelu A-D ar frig y dudalen. Mae'r opsiynau yn cadw strwythur y cwestiwn, ond mae'r rhifau yn newid.

The image shows two screenshots of a math problem page in Welsh. The top screenshot displays the problem text with navigation icons (back, refresh, help, enter, print) and tabs labeled A, B, C, CH, D. The bottom screenshot shows the same problem with four multiple-choice options highlighted in green.

Opsiw'n o fewn cwestiwn (Option within the question) - points to the tabs A, B, C, CH, D.

Agor/cau prif llun neu testun. (Open/close main image or text) - points to the image of hands planting seedlings.

Argraffu (Print) - points to the print icon.

Newid iaith (Change language) - points to the refresh icon.

Ymdrechion (Attempts) - points to the help icon.

Ailgychwyn (Refresh) - points to the refresh icon.

Yn ôl (Back) - points to the back icon.

Problem Text (Top Screenshot):

Amgylchedd
 39 Planhigion ar werth
 A B C CH D

Mae Nia yn tyfu planhigion ac yn eu gwerthu mewn marchnad leol. Mae hi'n cyfrifo'r pris gwerthu trwy ddyblu'r gost gyffredinol o'u tyfu.

Un wythnos, roedd ganddi 30 hambwrdd o blanhigion gwely blodau ac 20 pot o berlysiau yn barod ar gyfer y farchnad. Bydd yn gwerthu pob hambwrdd o blanhigion gwely blodau am £4, a'r potiau o berlysiau am £3 yr un. Eirbyn diwedd y diwrnod, roedd wedi gwerthu ei holl stoc.

Mae Nia'n gwerthu $\frac{3}{5}$ o'r planhigion gwely blodau am y pris llawn. At ddiwedd y dydd, gostyngodd Nia'r pris o 20%.

Fe werthodd 15 o'r potiau o berlysiau am y pris llawn, ond gwerthodd Nia'r gweddill am hanner pris.

(a) Faint gostiodd hi i Nia dyfu'r holl blanhigion?
 (b) Cyfrifwch gyfanswm incwm Nia am y diwrnod.
 (c) A wnaeth Nia elw ar y diwrnod hwn?

Options (Bottom Screenshot):

Owestiwn (a): Faint gostiodd hi i Nia dyfu'r holl blanhigion?

- $(30 \times 2) + (20 \times 1.5) = 90$
Fe gostiodd £90 i Nia dyfu'r holl blanhigion.
- $(30 \times 4) + (20 \times 3) = 180$
Fe gostiodd £180 i Nia dyfu'r holl blanhigion.
- $20 + 30 = 50$
Fe gostiodd £50 i Nia dyfu'r holl blanhigion.
- $30 \times 2 = 60$
Fe gostiodd £60 i Nia dyfu'r holl blanhigion.

Drwy weithio drwy'r cwestiynau, bydd y dysgwyr yn dysgu ateb cwestiynau gyda strwythur a bydd hyn yn magu hyder y dysgwr i drin a datrys problemau rhesymu rhifiadol.

Ar rai adegau pan fydd dysgwr yn dewis ateb anghywir yn yr "is-gwestiynau" amlddewis, bydd neges yn eu hysbysu eu bod wedi gwneud camgymeriad ac i fynd nôl, ond weithiau bydd y dysgwr yn parhau lawr llwybr anghywir cyn eu bod yn cyrraedd pwynt ble fydd yn rhaid cychwyn y cwestiwn eto.

Gwaith Cyfrifo:

Cwestiwn (a):
Faint gostiodd hi i Nia dyfu'r holl blanhigion? $(30 \times 4) + (20 \times 3) = 180$
Fe gostiodd £180 i Nia dyfu'r holl blanhigion.

ANGHYWIR!
Rydych wedi defnyddio'r pris gwerthu wrth gyfrifo.

Yn ôl

Cwestiwn (a):
Faint gostiodd hi i Nia dyfu'r holl blanhigion?

$(30 \times 2) + (20 \times 1.5) = 90$ Fe gostiodd £90 i Nia dyfu'r holl blanhigion.	$(30 \times 4) + (20 \times 3) = 180$ Fe gostiodd £180 i Nia dyfu'r holl blanhigion.
$20 + 30 = 50$ Fe gostiodd £50 i Nia dyfu'r holl blanhigion.	$30 \times 2 = 60$ Fe gostiodd £60 i Nia dyfu'r holl blanhigion.

Bydd botwm “Claw” ar adegau penodol fel y gellir derbyn cymorth os dymuna’r dysgwr.

Ar ôl dewis yr ateb cywir yn y cam olaf, bydd neges yn ymddangos ar y sgrin yn llongyfarch y dysgwr.

Cofnod o’r
camau cywir a
gymerwyd

Gwaith Cyfrifo:

Cwestiwn (a):
Faint gostiodd hi i Nia dyfu'r holl blanhigion? $(30 \times 2) + (20 \times 1.5) = 90$
Fe gostiodd £90 i Nia dyfu'r holl blanhigion.

Cwestiwn (b) Cam 1:
Beth oedd incwm Nia ar gyfer y potâu perlysiâu a werthwyd am y pris llawn? $15 \times 3 = 45$
Incwm Nia ar gyfer y potâu perlysiâu a werthwyd am y pris llawn oedd £45.

Cwestiwn (b) Cam 2:
Beth oedd incwm Nia ar gyfer y potâu perlysiâu a werthwyd am y pris disgownt? $(20 - 10) \times 0.6 \times 3 = 7.5$
Incwm Nia ar gyfer y potâu perlysiâu a werthwyd am y pris disgownt oedd £7.50.

Cwestiwn (b) Cam 3:
Beth oedd incwm Nia ar gyfer y planhigion gwely biodeu a werthwyd am y pris llawn? $\frac{3}{5} \times 30 \times 4 = 72$
Incwm Nia ar gyfer y planhigion a werthwyd am y pris llawn oedd £72.

Cwestiwn (b) Cam 4:
Beth oedd incwm Nia ar gyfer y planhigion gwely boddu a werthwyd am y pris disgownt? $\frac{2}{5} \times 30 \times 0.8 \times 4 = 38.4$
Incwm Nia ar gyfer y planhigion a werthwyd am y pris disgownt oedd £38.40.

Cwestiwn (b) Cam 5:
Cyfrifwch gyfanswm incwm Nia am y diwrnod: $45 + 7.5 + 72 + 38.4 = 162.9$
Cyfanswm incwm Nia oedd £162.90.

Cwestiwn (c):
A wnaeth Nia elw? $162.90 - 90 = 72.9$
Gwnaeth Nia elw o £72.90.

DA IAWN!
Yn ôl i ddechrau cwestiwn

Cwestiwn (c):
A wnaeth Nia elw?

$162.90 - 90 = 72.9$ Gwnaeth Nia elw o £72.90.	$90 - 162.9 = -72.9$ Gwnaeth Nia golled o £72.90.
Gwnaeth Nia elw o £162.90.	Gwnaeth Nia golled o £90.

Os oes gennych unrhyw sylwadau gallir cysylltu drwy e-bost:
adnoddau@cynnal.co.uk